Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

hawdd ei ddarllen

# Adroddiad Blynyddol 2024-2025

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cynnal gwiriadau i ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru.



Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2024-2025. Mae’r adroddiad hwn yn dangos beth wnaethom dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Geiriau Anodd**

Mae **geiriau anodd** wedi'u dangos mewn **glas**. Rydym yn esbonio'r rhain yn y blwch glas o dan y frawddeg. Gallwch hefyd weld y geiriau anodd i gyd ar dudalen 6.



## Yr hyn a wnaethon ni

- Gwnaethon ni ymweld â 163 o wasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd preifat.



- Gwnaethon ni wrando ar:
  - 3,407 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a'r cyhoedd.
  - 1,657 o aelodau o staff.

# Yr hyn a welson ni



**Mae mwy o bobl yn rhoi eu barn**



- Cawson ni 743 o bryderon – 21% yn fwy na'r flwyddyn ddiwethaf.

- Cododd **chwythu'r chwiban** 36%.



Ystyr **Chwythu'r chwiban** yw pan fydd rhywun sy'n gweithio yn rhywle yn dweud wrth rywun ar lefel uwch bod rhywbeth o'i le. Efallai y bydd yn poeni nad yw pobl yn ddiogel neu nad yw rheolau'n cael eu dilyn.




- Mae'r rhain yn aml yn dangos problemau arwain.

**Mae gwasanaethau'r GIG o dan bwysau**



- Dyw rhai gwasanaethau ddim yn ddiogel neu'n addas.



- Weithiau, mae pethau'n gwella ond wedyn yn mynd yn waeth eto.



- Does dim digon o staff ac mae rhai gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd rhoi gofal da.



**Mae mwy a mwy o ofal iechyd preifat, ond dyw e ddim bob amser yn ddiogel**




- Roedd yn rhaid i ni gymryd mwy o gamau nag erioed o'r blaen.




- Dyw rhai gwasanaethau newydd ddim yn gwybod y rheolau.

  Dydyn nhw ddim bob amser yn gwybod sut i gadw pobl yn ddiogel.



**Mae angen help ar wasanaethau iechyd meddwl**



- Dyw adeiladau ddim bob amser yn addas.



- Does dim digon o staff.



- Mae'r problemau hyn yn effeithio ar ofal pobl.

## Yr hyn a wnaethon ni



- Gwnaethon ni atal gwasanaethau anniogel.



- Gwnaethon ni ddweud wrth Lywodraeth Cymru am broblemau difrifol.
- Gwnaethon ni ddechrau **ymchwiliadau troseddol**.



**Ymchwiliad troseddol** yw pan fydd yr heddlu neu grŵp swyddogol arall yn edrych yn fanwl ar rywbeth difrifol iawn. Byddan nhw'n edrych i weld a oes trosedd wedi digwydd, ac a oes rhywun wedi torri'r gyfraith.



- Rydyn ni'n dweud wrth wasanaethau sut i wella.



## Mae gwrando yn gwneud gwahaniaeth

Rydyn ni'n defnyddio beth mae pobl yn ei ddweud wrthon ni i wella pethau.



## Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud

Dylai pawb yng Nghymru gael gofal sy'n ddiogel ac yn dda.



Bydd AGIC yn parhau i gadw golwg ar ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru.

# Geiriau anodd

Efallai y bydd rhai geiriau yn y ddogfen hon yn anodd i'w deall. Mae'r dudalen hon yn egluro beth mae'r geiriau hynny'n ei olygu mewn ffordd syml.



## Chwythu'r chwiban 36%.

**Ystyr Chwythu'r** chwiban yw pan fydd rhywun sy'n gweithio yn rhywle yn dweud wrth rywun ar lefel uwch bod rhywbeth o'i le. Efallai y bydd yn poeni nad yw pobl yn ddiogel neu nad yw rheolau'n cael eu dilyn.



## Ymchwiliadau troseddol.

**Ymchwiliad troseddol** yw pan fydd yr heddlu neu grŵp swyddogol arall yn edrych yn fanwl ar rywbeth difrifol iawn. Byddan nhw'n edrych i weld a oes trosedd wedi digwydd, ac a oes rhywun wedi torri'r gyfraith.

## Sut i gysylltu ag AGIC

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os hoffech gwblhau'r arolwg hwn mewn ffordd arall, cysylltwch â ni.

**Trwy'r post**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Trwy e-bost**

agic@llyw.cymru

**Trwy ffôn**

0300 062 8163

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales